**Y Pwyllgor Diwylliant CC-4-02(min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher, 6 Chwefror 2002 |
| **Amser:** | 10.00am-1.00pm |
| **Lleoliad:** | Neuadd Goffa Pontyberem |

**Presennol:**

Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)

Jenny Randerson (Democrat Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)

Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)

Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth)

Alison Halford (Llafur, Delyn)

Gwenda Thomas (Llafur, Castell Nedd – yn cymryd lle Delyth Evans)

**Ymddiheuriadau**

Dafydd Wigley (Plaid Cymru, Caernarfon)

Glyn Davies (Ceidwadwr, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Rosemary Butler (Llafur, Gorllewin Casnewydd)

**Swyddogion**

Julia Annand (Clerc y Pwyllgor)

Stephen Thomas (Dirprwy Glerc y Pwyllgor)

**Hefyd yn bresennol:**

Euryn Ogwen Williams (Ymgynghorydd Arbenigol y Pwyllgor)

**Datganiadau o fuddiant:**

- Rhodri Glyn Thomas – mae ei wraig yn un o weithwyr cyflog Cyngor Sir Penfro.

**Cyflwyniad**

- Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau y byddai Mandy James o Imaginet yn rhoi cyflwyniad ar TG a'r Gymraeg brynhawn y 14eg o Chwefror.
- Bydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn ystyried yr adolygiad o'r iaith ar 6 Mawrth.

**<u>Eitem 1: Adolygiad o'r Gymraeg</u>**

**<u>Papurau: CC-4-02(p'au.1-6)</u>**

<u>Sefydliad:</u>

**Cyngor Sir Caerfyrddin**

Cynrychiolwyr:

Y Cyng. W Gwyn Hopkins

Diarmait Mac Giolla Christ

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Ffurfiwyd y Fenter Iaith gyntaf yng Nghymru, Menter Cwm Gwendraeth, yn sir Gaerfyrddin ym 1991. Mae chwech o'r 20 o Fentrau Iaith yng Nghymru yn sir Gaerfyrddin.
- Ysgogwyd y Mentrau gan yr angen i atal y dirywiad yn y defnydd o'r Gymraeg yn sir Gaerfyrddin. Roedd ymchwil yn dangos bod defnydd o'r Gymraeg yn y sir ym 1901 yn 90% ond ei fod erbyn diwedd y ganrif wedi disgyn i 55%.
- Wrth geisio gweithredu'n gadarnhaol o ran y Gymraeg, creodd Cyngor Sir Caerfyrddin

strategaeth iaith ym 1998. Mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau bod pob sefydliad o fewn y sir yn cymryd y Gymraeg o ddifrif ac yn rhoi'r un statws iddi ag i'r Saesneg.
- Credai'r Cyng. Hopkins y gellid gwneud mwy o ran creu cymdeithas ddwyieithog, e.e. ar fysys, y dylai'r arwyddion a'r tocynnau fod yn ddwyieithog. Fel arall, mae'r negeseuon anghywir yn cael eu trosglwyddo am statws yr iaith.

Nodwyd y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb a ddilynodd:

- Mewn perthynas â'r cyfleoedd y dylai'r Cynulliad eu creu i'r Gymraeg yng Nghymru, atebodd y Cyngor y gallai'r Cynulliad beri newid yn yr agwedd bresennol tuag at y Gymraeg. Rhaid i'r Cynulliad greu'r ewyllys i fod o ddifrif yngl•n â'r iaith, a thrwy hynny wella ei statws. Cymeradwyai'r Cyng. Hopkins ddogfen Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 'Gweledigaeth a Chenhadaeth i'r Gymraeg' sy'n cynnig nifer o dargedau cyraeddadwy ar gyfer defnyddio'r Gymraeg. Mae llyfr yr Athro Colin Williams 'Language Revitalisation' hefyd yn cynnig nifer o awgrymiadau yngl•n â sut y gallai'r iaith ffynnu.
- Wrth ateb cwestiwn ynghylch y diffiniad o 'ddwyieithrwydd', atebodd y Cyngor bod yna genhedloedd dwyieithog, a hyd yn oed tairieithog i'w cael. Amcangyfrifir bod 68% o'r byd yn ddwyieithog.
- Wrth ateb cwestiwn gan y Gweinidog yngl•n â chydlynu gwaith y Mentrau Iaith yn Sir Gaerfyrddin, atebodd y Cyngor mai Menter Iaith Myrddin dan arweiniad Cefin Campbell oedd yn gwneud y gwaith hwnnw. Roedd y cloriannu ar waith y Mentrau Iaith yn cael ei fonitro gan Gwmni Iaith Cyf.
- Cytunodd y Cyngor y byddai'n rhoi ateb ysgrifenedig i'r Pwyllgor yn amlinellu'r targedau a osodwyd ar gyfer cynyddu niferoedd siaradwyr Cymraeg, recriwtio athrawon Cymraeg eu hiaith a'r anogaeth a'r amser a roddir i staff y Cyngor i'w galluogi i siarad Cymraeg.
- Cytunodd y Cyngor hefyd y byddai'n dosbarthu copi o'i strategaeth iaith i holl aelodau'r pwyllgor.

<u>Sefydliad</u>

**Cyngor Sir Penfro**

Cynrychiolwyr:

Allan Bennett

Stephen Hurr

Nic Wheeler, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro

Diolchodd y Cadeirydd i Nic Wheeler am baratoi papur i'r Pwyllgor wedi rhybudd byr iawn.

Nodwyd y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Roedd y Gymraeg yn ystyriaeth allweddol yng nghynllun corfforaethol a pherfformiad Cyngor Sir Penfro.
- Roedd y cynllun corfforaethol yn cynnwys ymrwymiadau i 'wella bywyd y gymuned' a 'pharchu treftadaeth ddiwylliannol y Sir'.
- Datblygwyd ffordd gytûn o Gynllunio'n Gymunedol yn sir Benfro a bu cryn gynnydd yn y maes hwn er pan ffurfiwyd y Gr•p Cynllunio ac Arwain Cymunedol.
- Ym marn y Cyngor roedd datblygu cymunedau bywiog a sicrhau twf economaidd ar sail angen lleol yn ddwy ffordd allweddol y gallai helpu i gynorthwyo'r Gymraeg,
- Dywedodd Nic Wheeler mai polisïau cymdeithasol a diwylliannol oedd y polisïau tai a fabwysiadwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Sir Benfro yn hytrach na pholisïau iaith. Nid oedd y gyfundrefn gynllunio ei hun yn ateb i bopeth a dim ond rhan gymharol fychan y gallai ei chwarae yn y gwaith o greu a chynnal cymunedau lleol. Roedd diogelu 'cymunedau cynaliadwy' yn thema ganolog yng nghadwraeth trefi a phentrefi gwledig yng Nghymru, sy'n angor i'r Gymraeg.

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb a ddilynodd:

- Wrth ateb cwestiwn yn holi am ddarparu hyfforddiant yn y Gymraeg i staff y Cyngor, atebodd y Cyngor na wrthodwyd hyfforddiant yn y Gymraeg erioed i unrhyw aelod o staff. Roedd y Cyngor wedi cynnal ymarfer mapio ieithyddol i wella sgiliau ieithyddol ei weithlu.
- Byddai'r Cyngor yn cynnal ymgynghoriad manwl yngl•n â'i ddogfen Cynllunio Cymunedol.
- O ran ei god arferion recriwtio, mae'r Cyngor wedi cynnal sawl cyfarfod yngl•n â hyn â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac mae'r cod wedi cael ei ddiweddaru'n helaeth. Hysbysebwyd nifer o swyddi gyda'r cymal bod y Gymraeg yn 'ddymunol' neu'n 'hanfodol'.
- Wrth ateb cwestiynau yn holi am y polisïau tai a fabwysiadwyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol, dywedodd Nic Wheeler fod 51% o dai sir Benfro yn eiddo i bobl o'r tu allan i'r sir, a 29% i bobl a oedd wedi ymddeol. Roedd y sefyllfa dai yn un gymhleth ac roedd angen trafod y problemau ariannol a wynebai pobl leol mewn ffordd gyfannol. Dim ond tua 1% o werth ychwanegol posibl fyddai'r polisi newydd yn ei ychwanegu at eiddo.
- Nid oedd yr un problemau tai ag a fodolai yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Sir Benfro i'w cael o anghenraid mewn ardaloedd eraill. Mae'r Awdurdod wedi agor y drafodaeth ar bolisi tai ond un elfen yn unig ydoedd hynny yn hafaliad cynaliadwyedd. Bydd y polisi yn destun ymgynghori, ac os caiff ei fabwysiadu, ni fydd yn dod i rym am ddwy i dair blynedd arall. Gorffennodd Nic Wheeler trwy ddweud bod rhaid i'r Cynulliad hefyd chwarae ei ran yn y gwaith o helpu cymunedau gwledig lleol os yw'n dymuno eu gweld yn parhau yn ardaloedd byw. Bydd angen cymorth gwleidyddol ac ariannol ar ysgolion lleol, gwasanaethau bws a gwasanaethau cyhoeddus, fel siopau a swyddfeydd post, er mwyn i gymunedau allu parhau i fod yn gynaliadwy.

Sefydliad

**Cylch yr Iaith**

Cynrychiolwyr:

Emyr Llywelyn

Peter Hughes Griffiths

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Mae Cylch yr Iaith yn cynrychioli gwylwyr a gwrandawyr darlledu yn Gymraeg a dyma'r unig gorff annibynnol yng Nghymru sy'n monitro darlledu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Bydd y mesur Cyfathrebu a fydd cyn hir yn dod gerbron y Senedd yn newid y ffordd y rheolir darlledu. Bydd llawer mwy o ddewis i wylwyr a gwrandawyr wrth i lu o sianelau fod ar gael i ragor o bobl. Bydd maint enfawr darlledu ynddo'i hun yn milwrio yn erbyn diogelu ieithoedd lleiafrifol a diwylliannau brodorol.
- Teimlai Emyr Llywelyn ei bod yn hanfodol bwysig i'r Cynulliad fod â rheolaeth dros ddarlledu yng Nghymru. Cyfathrebu oedd sylfaen democratiaeth ac os na allai'r cyfryngau gyfleu diwylliant ac ieithoedd Cymru i'r Cymry yna byddai Cymru yn colli ei hunaniaeth genedlaethol.
- Roedd byd-ehangu a'r uwch-draffordd wybodaeth yn fygythiad difrifol i genedlaethau'r dyfodol a phwyswyd ar y Cynulliad i gymryd camau adferol i rwystro hyn rhag digwydd.

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb a ddilynodd:

- Dywedodd sawl aelod fod golwg Mr Llywelyn ar y byd braidd yn gul ac ynysig a nodwyd ei bod yn amhosibl atal cynnydd technolegol.
- Teimlai cynrychiolwyr Cylch yr Iaith fod Radio Cymru yn defnyddio mwy a mwy o eiriau ac ymadroddion Saesneg ac yn ymwrthod â'i chyfrifoldeb i ddarlledu trwy gyfrwng y Gymraeg i siaradwyr Cymraeg.

Sefydliad

**Mentrau Iaith**

Cynrychiolwyr:

Cefin Campbell

John Llewelyn Tomos

Nodwyd y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Credai Mentrau Iaith fod yn rhaid i’r Cynulliad, er mwyn i’r Gymraeg ffynnu, ddangos arweiniad gwleidyddol clir a buddsoddi mwy nag yr oedd ar hyn o bryd.
- Nod Mentrau Iaith oedd ehangu a hyrwyddo’r Gymraeg fel iaith gymuned. Croesawai ymrwymiad y Cynulliad i greu Cymru ddwyieithog a galwodd ar y Cynulliad i wneud yr iaith yn fater trawsbynciol.
- Cynigion eraill gan Mentrau Iaith oedd:
- Dylai polisïau’r Cynulliad fod ar gyfer Cymru gyfan ond dylid rhoi sylw arbennig i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol.
- Dylid sefydlu Corff Cenedlaethol Datblygu Iaith ac Economi i Gymru i hybu economi, addysg a hyfforddiant, datblygiad cymunedol a’r Gymraeg.
- Dylid trefnu astudiaeth o ddichonoldeb i edrych ar bosibilrwydd symud pencadlysoedd rhai cyrff cyhoeddus i’r tu allan i Gaerdydd.
- Roedd angen newidiadau sylfaenol mewn polisi ym maes tai a chynllunio er mwyn diogelu dyfodol yr iaith – yn arbennig yng nghefn gwlad Cymru.
- Dylid ffurfio corff cenedlaethol i gydlynu, cefnogi a hybu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Dylid ffurfio corff rheoli a datblygu tebyg i HABE yng Ngwlad y Basg i fonitro, cydlynu ac ariannu gweithgareddau Cymraeg i Oedolion, a sefydlu rhwydwaith o ganolfannau iaith ledled Cymru.
- Roedd Mentrau Iaith yn cefnogi’r galw am adolygiad o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Roedd angen i’r Ddeddf fod yn fwy perthnasol i ofynion y presennol trwy gynnwys y cyfleustodau a breifateiddiwyd, banciau etc.
- Credai Mentrau Iaith hefyd y dylid gwneud mwy i annog trosglwyddo’r iaith yn y cartref.

Nodwyd y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb a ddilynodd:

- Llongyfarchwyd Mentrau Iaith gan y Gweinidog ac aelodau eraill ar ei bapur a’i gyflwyniad cynhwysfawr.
- Wrth ateb cwestiwn yn holi pam y credai Mentrau Iaith y dylid dod â dysgu Cymraeg yn ail iaith i ben mewn ysgolion, dywedodd Cefin Campbell na ddylai fod unrhyw wahaniaethu rhwng siaradwyr Cymraeg fel iaith gyntaf ac fel ail iaith.
- Wrth ateb cwestiwn yn holi am gostau posibl y cyrff newydd a awgrymwyd, addawodd Cefin Campbell roi nodyn i’r Pwyllgor yn nodi’r costau.

<u>Sefydliad</u>

**Cwmni Iaith Cyf**

Cynrychiolwyr:

Gareth Ioan

Dr Kathryn Jones

Steve Eaves

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Nid oedd adolygiad y Pwyllgor Diwylliant yn dechrau o safbwynt niwtral. Roedd yn bwysig gosod yr adolygiad yn y cyd-destun cymdeithasol a hanesyddol.
- Ar ôl ystyried y cyd-destun hanesyddol a'r sefyllfa bresennol, dylid cynnwys siaradwyr Cymraeg hefyd fel gr•p cymdeithasol penodol o fewn yr agenda cyfle cyfartal.
- Roedd her rhoi cyfle cyfartal i siaradwyr Cymraeg yn un yr oedd yn rhaid i'r Cynulliad fynd i'r afael â hi ac roedd hynny'n cynnwys cael cytundeb nad oedd a wnelo gweithredu'n gadarnhaol o blaid siaradwyr Cymraeg ddim â hiliaeth.
- Roedd angen cydnabod pwysigrwydd ac arwyddocâd cynnal cymunedau lle'r oedd y Gymraeg yn brif a phriod iaith bywyd cymdeithasol y gymuned ar bob lefel.
- Roedd yn bwysig hefyd cydnabod hawliau cymunedau ieithyddol mewn peuoedd uniaith.
- Dylai'r Cynulliad, ac yn bennaf oll ei Bwyllgor Addysg, edrych yn fanylach ar yr angen am sgiliau galwedigaethol dwyieithog a chynllunio strategaeth genedlaethol ddwyieithog ar y farchnad lafur a fyddai'n cysoni anghenion recriwtio dwyieithog â hyfforddiant galwedigaethol priodol.
- Roedd y cyfryngau torfol a TGCh hefyd yn hanfodol bwysig i'r iaith. Credai Cwmni Iaith Cyf fod angen ail sianel radio Gymraeg genedlaethol a chredai hefyd ei bod yn bwysig annog defnyddio'r Gymraeg mewn TGCh.
- Yn olaf, roedd angen edrych yn fanwl ar natur dwyieithrwydd a beth yr oedd yn ei olygu i bobl yn eu bywyd bob dydd.

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb a ddilynodd:

- Roedd yn hanfodol cydlynu cynllunio iaith rhwng sefydliadau ac adrannau ac ni fyddai hynny'n costio swm enfawr o arian.
- Ni ddylai Bwrdd yr Iaith Gymraeg fod yn gyfrifol am gynllunio ieithyddol ar ei ben ei hun; dylai'r Cynulliad arwain.
- Roedd angen mwy o bartneriaethau rhwng ymarferwyr ac academyddion yngl•n â datblygu cynllunio iaith ar lefel ddeallusol.

Sefydliad

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)**

Cynrychiolwyr:

Llew Huxley

Dilys Hughes

David Thomas

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Cymeradwywyd cynllun iaith Gymraeg y Gymdeithas gan Fwrdd yr iaith Gymraeg ym 1999. Roedd thema ganolog y cynllun yn datgan bod y Gymdeithas wedi mabwysiadu'r egwyddor 'y bydd wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd'.
- Credai'r Gymdeithas fod yn rhaid inni, wrth dderbyn statws dwyieithrwydd, sicrhau consensws cenedlaethol. Roedd dyfodol yr iaith yn dibynnu llawn cymaint ar siaradwyr di-Gymraeg ag yr oedd ar bobl a siaradai Gymraeg.
- Roedd sicrhau 'normaleiddio' defnydd o'r Gymraeg yn gofyn am gryn dipyn o sensitifrwydd o du'r ddwy gymuned ieithyddol.
- Roedd angen cydnabod nad dim ond iaith y cartref oedd y Gymraeg, ond ei bod hefyd yn iaith gymunedol ffyniannus.
- Dylid creu ffynhonnell gyllido a oedd yn cynnig cyfleoedd i ddysgu Cymraeg. Roedd angen i ELWa ddatgan yn glir bod y Gymraeg yn sgìl a dylid eu hannog i ddarparu cyfleoedd i ddysgu'r iaith.
- Dylid cynyddu nifer y cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith. Dim ond pan fyddai modd defnyddio'r Gymraeg yn arferol mewn amrywiaeth o gyd-destunau cymdeithasol a swyddogol y byddai statws yr iaith a'r defnydd ohoni yn cynyddu.
- Roedd diffyg hyder yn ffactor wrth beidio â defnyddio'r Gymraeg. Roedd llawer o siaradwyr Cymraeg yn teimlo nad oedd eu sgiliau Cymraeg o safon ddigon uchel i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd cyhoeddus.
- Roedd angen rhagor o ddata ar effaith mewnfudo, allfudo a ffenomenau eraill ar yr iaith ac angen ffigurau mwy dibynadwy yngl•n â'r nifer o siaradwyr Cymraeg y tu mewn a'r tu allan i Gymru.
- Roedd cysylltiad agos iawn rhwng dyfodol yr iaith a datblygiad economaidd. Yng nghyd-destun yr adolygiad hwn, rhaid annog cwmnïau preifat i edrych y tu hwnt i Gaerdydd wrth ystyried eu canolfannau. Dylai'r Cynulliad arwain yn hyn o beth.
- Roedd cyflwr gwael y seilwaith trafnidiaeth yn ffactor allweddol ym mharhad y methiant i ddenu cyflogwyr mawr i gefn gwlad Cymru.

- Dylai'r Cynulliad wneud rhagor i annog y cyhoedd Cymraeg ei iaith i ddefnyddio'r cyfleusterau a'r gwasanaethau niferus a oedd eisoes yn cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 17 a 23 Ionawr**

**Papurau: CC-2-02(min) a CC-3-02(min)**

Derbyniwyd y rhain heb eu newid.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Chwefror 2002**